# PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

# 27AIN EBRILL 2015

| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd); |
|---|---|

**Y Cynghorydd J.D. James.**

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd A. P. Cooper** | **Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd D.M. Cundy** |
| **Y Cynghorydd D.M. Jenkins** | **Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd D. Price** |
| **Y Cynghorydd D.W.H. Richards** | **Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd H.B. Shepardson** |

Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:-

Y Cynghorydd P.A. Palmer – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau

Y Cynghorydd L.M. Stephens – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio.

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

**Ms. L. Rees Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;**

**Ms. G. Morgan - Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

**(Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 2.30pm – 3.10pm)**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.M. Cundy, D. Price a H.B. Shepardson.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 5ed Chwefror, 2015 yn gofnod cywir.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (CHWEFROR, 2015)

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2015) a wnâi nifer o benderfyniadau ac argymhellion y gofynnid i'r Cyngor ystyried eu cynnwys yn ei Gynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig, 2015/16 presennol. Nodwyd gan y Pwyllgor fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wrth bennu lefel y

cyflogau a'r lwfansau ar gyfer 2015/16, wedi penderfynu na fyddai cynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol yn 2015/16 o ystyried y cyfyngiadau parhaus ar wariant llywodraeth leol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y taliadau cyfredol a gâi eu gwneud i Aelodau ac yn ceisio barn y Pwyllgor am daliadau i Benaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig, Lwfansau Cynhaliaeth a Lwfansau Llety, Cydnabyddiaeth Ariannol Cadeiryddion y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a thaliad Ffïoedd Aelodau Cyfetholedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2015/16.

Gwnaed awgrym y dylai'r Awdurdod ailystyried penodi Aelod Llywyddu, a dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi cyflwyno deddfwriaeth er mwyn caniatáu i'r prif gynghorau benodi Aelod Llywyddu gan beri drwy hynny fod dyletswyddau seremonïol Cadeirydd y Cyngor a'r agwedd gyfansoddiadol ar Gadeirio Cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gwahanu. Atgoffwyd y Pwyllgor ganddi fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 8fed Ionawr 2014, wedi penderfynu peidio â phenodi Aelod Llywyddu a bod y Gweithgor Trawsbleidiol oedd yn Adolygu'r Cyfansoddiad hefyd wedi cytuno i beidio ag ailystyried y mater hwn.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch darparu uwch-gyflogau ychwanegol, a dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith y gallai'r Awdurdod wneud cais am uwch-gyflogau ychwanegol neu benodol nad oeddent yn rhan o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol neu nad oedd lle iddynt o fewn y mwyafswm uwch-gyflogau ar gyfer yr Awdurdod. Petai'r Cyngor yn ceisio darpariaeth o'r fath, byddai angen iddo wneud cais i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a darparu tystiolaeth glir y byddai gan y swydd/swyddi gyfrifoldeb ychwanegol ar ffurf disgrifiad o rôl, swyddogaeth a hyd y swydd/swyddi.

Dywedwyd bod Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd ac Archwilio ac nad oedd Cadeiryddion y Pwyllgorau hyn yn cael eu talu. Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith mai 18 oedd y mwyafswm yn Sir Gaerfyrddin o ran aelodau'r Cyngor oedd yn gymwys i gael uwch-gyflog, a bod y Cyngor wedi penderfynu y dylai'r uwch-gyflogau hyn gael eu talu i'r Bwrdd Gweithredol ac i Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, Trwyddedu, a Chynllunio. Petai'r Cyngor am roi cydnabyddiaeth ariannol i Gadeiryddion Pwyllgorau eraill byddai angen iddo wneud achos busnes dros gael uwch-gyflogau ychwanegol neu adolygu ei ddyraniad presennol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR BOD argymhellion a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael eu derbyn a'u cynnwys yng Nghynllun presennol Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig 2015/16 yn amodol ar y canlynol:**

- **Mabwysiadu Dewis b) yng nghyswllt talu Cyflogau Dinesig i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn 2015/16;**
- **Parhau â'r penderfyniad blaenorol i beidio â dyrannu'r mwyafswm dyddiol sef £28.00 rhwng y gwahanol brydau bwyd a defnyddio cyfradd**

**ddyddiol o £24.00 pan fydd brecwast wedi'i gynnwys ym mhris y llety h.y. bod £4.00 yn cael ei ddidynnu pan ddarperir brecwast yn rhan o'r llety;**

- **Parhau â'r trefniant bod pob llety i'r aelodau i'w drefnu drwy gyfrwng Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor;**
- **Nodi'r trefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ag awdurdodau eraill a'u cynnwys yng nghynllun y Cyngor pe bai'r Cyngor yn penderfynu sefydlu Cyd-bwyllgorau yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2015/16 a thalu cyflog;**
- **Bod y ffïoedd a delir i'r Aelodau Cyfetholedig yn aros ar y lefel bresennol ar gyfer 2015/16 sef 10 diwrnod llawn [neu 20 hanner diwrnod] o gyfarfodydd.**

## 5. ARGYMHELLION GWEITHGOR TRAWSBLEIDIOL ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 12fed Tachwedd 2014, wedi sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol Adolygu'r Cyfansoddiad i ystyried yr argymhellion yn Adroddiad Adolygiad gan Gymheiriaid Sir Gaerfyrddin dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2014**.** Roedd y Grŵp wedi cyfeirio 3 argymhelliad i'w hystyried gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, sef argymhellion 7, 8 ac 11.

Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith wrth y Pwyllgor fod argymhelliad 7 o adroddiad yr Adolygiad gan Gymheiriaid wedi argymell y dylai'r Rhaglen a'r Strategaeth Datblygu Aelodau gael eu diweddaru a'u harwain gan aelodau drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bu iddi atgoffa aelodau'r Pwyllgor eu bod, yn y cyfarfod ar 16eg Ebrill 2014, wedi cymeradwyo'r Rhaglen Datblygu Aelodau Flynyddol ar gyfer 2014/16 ac mai'r Adolygiadau Datblygiad Personol a gâi eu cynnal ar hyn o bryd gan Arweinwyr y Grwpiau fyddai'r sail ar gyfer y Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus. Hefyd dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio wedi'i chadarnhau fel yr Arweinydd Datblygu Aelodau ar ran y Bwrdd Gweithredol, ac y byddai'n gweithio ochr yn ochr â Chadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i hyrwyddo a chydgysylltu datblygu a chynorthwyo aelodau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Argymhelliad 8 yr Adolygiad gan Gymheiriaid wedi argymell y dylai Adolygiadau o Ddatblygiad Personol yr Aelodau gael eu harwain gan yr aelodau, gyda chymorth priodol gan Reolwyr Hyfforddiant. Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod yr Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol wedi cwrdd ag Arweinwyr y Grwpiau a'u Dirprwyon a Chadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i drafod anghenion Datblygu Personol yr aelodau a sut y byddai'r Grwpiau'n annog eu haelodau i ddatblygu'n bersonol. Cytunwyd i roi templed llythyr gwahodd safonol a thempled hunanfyfyrio i bob Arweinydd Grŵp, i'w defnyddio gan y grwpiau gwleidyddol er mwyn clustnodi anghenion datblygu personol eu haelodau, ac yn dilyn trafodaeth byddai'r

Grwpiau'n rhoi adborth mewn cyfarfod pellach ym mis Gorffennaf 2015 pryd y byddid yn clustnodi anghenion datblygu a themâu cyffredin ac yn ystyried rhaglen ddatblygu. Byddai adroddiad am yr ymatebion a'r math o hyfforddiant a geisid yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Hydref 2015.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr argymhelliad olaf (11) yn nodi y dylai'r holl aelodau lunio Adroddiadau Blynyddol er mwyn hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch rôl a chyfraniadau'r Cynghorwyr. Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fod Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 yn argymell y dylai pawb oedd yn aelod o'r awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn, ac er nad oedd yn ofyniad gorfodol, dylid nodi bod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ynghylch "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol" yn cynnig gwneud llunio Adroddiad Blynyddol yn orfodol i aelodau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod 51 o'r 74 o aelodau wedi llunio adroddiadau blynyddol ar gyfer 2013/14 ar sail templed drafft a oedd wedi'i gymeradwyo yn y cyfarfod ar 15fed Mawrth 2013.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a rhoi gwybod i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad am y camau roedd y Pwyllgor wedi'u cymryd o'r blaen.**

**LLOFNODWYD: ______________________**

**DYDDIAD: ______________________**